**COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 10FED TACHWEDD 2025**

**Yn bresennol:** y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Cadeirydd (ar Zoom)

Troy Maclean

Peter Jones

Rory Francis

David Meirion Jones

Geoffrey Jones

Mark Thomas (ar Zoom)

Ross Evans, Savills

Lydia Thomas, Savills

David Jones

Sioned Graham-Cameron, Clerc

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Morwenna Pugh, Gareth Davies, Dafydd Dafis a'r Dirprwy Glerc, Ellen Pugh.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Materion y Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd bod gwasanaethau Sul y Cofio wedi mynd yn iawn. Adroddodd hefyd iddo gyfarfod â Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd yn Llan i drafod y posibilrwydd o ail-adeiladu pont i gysylltu dau lwybr. Nid oedd llawer o obaith y byddai hynny'n digwydd yn y dyfodol agos, ond efallai y byddai grant ar gael.

**4. Diweddariad gan yr Heddlu**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**5. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**6. Llyn Dubach – Cyflwyniad**

Cyflwynodd Ross Evans o Savills ei hun i'r Cynghorwyr, gan esbonio mai Stâd y Goron a oedd yn gyfrifol am y safle. Roedd angen gwneud gwaith i ostwng lefel y dŵr i osgoi gorlifo. Byddai'r gwaith yn cychwyn yr wythnos ganlynol, mwy na thebyg, a byddai trac yn cael ei greu i'r peiriannau deithio arno, trac a fyddai'n cael ei dynnu ymaith wedyn ac adfer y tir. Ni fyddai unrhyw ymyrraeth i drigolion lleol a byddai'n cael effaith fechan iawn ar dreftadaeth a bywyd gwyllt. Roedd y cynllun yn cael ei reoli ar y cyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, CADW, Chyngor Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.

DRAFT

Gofynnodd y Cadeirydd am gopi o'r adroddiad ecolegol, a diolchodd i Mr Evans am ei gyflwyniad.

**7. Derbyn Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

Cyngor Arferol – 13 Hydref 2025. Dywedodd Y Cynghorydd Mark Thomas iddo sôn am hedfan y baneri Celtaidd a gofynnodd am gael ychwanegu hynny i'r cofnodion. Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones bod y cofnodion yn cael eu derbyn yn amodol ar yr ychwanegiad uchod a chytunodd pawb.

Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio – 20 Hydref 2025. Cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones bod y cofnodion yn cael eu derbyn fel rhai cywir a chytunodd pawb.

Pwyllgor Mwynderau – 20 Hydref 2025. Cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones bod y cofnodion yn cael eu derbyn fel rhai cywir a chytunodd pawb.

**8. Ystyried Gwaharddiadau – Ardal Tan y Manod**

Ystyriwyd ebost a dderbyniwyd gan Andrew Gregson, Swyddog Cyngor Gwynedd, mewn perthynas â gwaharddiadau arfaethedig yn ardal Tanymanod. Dywedoddd y Cynghorydd Mark Thomas bod pwynt bwled 3 yn gywir, a byddai yn symud y broblem i fan arall mewn gwirionedd. Nododd y Cynghorydd Rory Francis bod pryder o ran ambiwlans neu injan dân yn cael trafferth mynd trwodd. Er nad oedd hyn yn mynd i ddatrys y broblem, ar y cyfan roedd y Cynghorwyr yn cefnogi'r syniad. Cynigiodd y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd y Cynghorydd Geoffrey Jones bod y Cyngor Tref yn cytuno a chytunodd pawb.

**9. Ceisiadau Cynllunio**

Ystyriwyd y ceisiadau Cynllunio canlynol:

**i. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**
Rhif Cais: C25/0763/03/DT
Lleoliad: Summerville, 89 Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3DW
Bwriad: Estyniad deulawr i gefn yr eiddo.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais uchod.

ii. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**
Rhif Cais: C25/0480/03/LL
Lleoliad: Clwb Rygbi Bro Ffestiniog Ystâd Ddiwydiannol Llwyn Gell, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd,
LL41 3NE
Bwriad: 6 llifoleuadau.

Nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r cais uchod.

**10. Rhestr Taliadau**

Cynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd y Cynghorydd Troy Maclean bod y rhestr yn cael ei derbyn a'r taliadau'n cael eu cymeradwyo a chytunodd pawb.

**11. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

Ystyriwyd y ceisiadau canlynol:

i. Clwb Pêl Droed Amaturiaid Amaturiaid y Blaenau – copi o'r ffurflen gais ynghlwm a chyflwynwyd mantolen banc yn y cyfarfod. Ataliodd y Cynghorydd Mark Thomas ei bleidlais ar y cais hwn gan nad oedd y ffurflen yn ddigon clir. Cynigiodd y Cynghorydd Troy Maclean ac eiliodd y Cynghorydd Geoffrey Jones bod y clwb yn cael y £1,000.00 a chytunodd pawb ac eithrio'r Cynghorydd uchod.

ii. Ambiwlans Awyr – copi PDF o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ynghlwm. Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Troy Maclean bod £1,000.00 yn cael ei roi a chytunodd pawb.

iii. Dawns i Bawb – roedd adroddiad ariannol ynghlwm. Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Rory Francis bod cyfraniad o £1,000.00 yn cael ei roi a chytunodd pawb.

**12. Strategaeth Wastraff**

Adroddwyd bod arolwg cyhoeddus ar strategaeth wastraff newydd ar gyfer Cyngor Gwynedd wedi ei lansio, a bod gwahoddiad i'r cynghorwyr ymateb ar ffurf holiadur. Gofynnodd y Cynghorydd Mark Thomas am gopi caled o'r ddogfen a chytunodd y Clerc geisio gwneud hynny. Derbyniwyd yr adroddiad.

**13. Caeau Chwarae Tanygrisiau a Phenybryn**

Ar ôl trafod y dogfennau gan y cyfreithiwr, cytunwyd gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â Chae Tanygrisiau a gofyn am brydles 75 mlynedd mewn perthynas â Phenybryn. Gofynnodd y Cynghorydd Mark Thomas hefyd os gellid holi i gael bin baw cŵn y tu allan i'r cae chwarae yn Nhanygrisiau gan fod yr un yn y cae yn cael ei ddefnyddio gan gerddwyr cŵn a chytunodd y Clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

**14. Cadair Eisteddfod**

Ystyriwyd cynnig gan y Cynghorydd Peter Jones i brynu Cadair Eisteddfod a oedd ar werth am £550.00, a oedd â chysylltiad gyda Chapel Ebeneser, y Blaenau.

Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Mark Thomas a chytunodd pawb bod y Cyngor Tref yn prynu'r Gadair.

**15. Sgwâr Oakeley – Prosiect Bioamrywiaeth**

Rhoddodd y Clerc ddiweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r cais am grant gan y Bartneriaeth Natur. Derbyniwyd yr adroddiad.

**16. Adroddiadau gan Gynghorwyr**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**17. Adroddiad Cadi Dafydd – Ymweliad Patagonia**

DRAFT

Derbyniwyd adroddiad Cadi Dafydd, a oedd wedi ennill Ysgoloriaeth Patagonia 2025-25. Canmolwyd yr adroddiad a gofynnwyd i'r Clerc anfon neges yn diolch i Cadi amdano ac yn nodi cystal adroddiad yr oedd.

**18. Llwybr Llechi Eryri**

Cyflwynwyd gohebiaeth yn gofyn i'r Cyngor gefnogi ymgyrch Llwybr Llechi Eryri i gael ei ddynodi yn Llwybr Cenedlaethol. Cynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd y Cynghorydd David Meirion Jones bod y Cyngor Tref yn gwneud hyn a chytunodd pawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.57pm

DRAFFT